Troseddau Casineb tuag at Bobl Anabl

CPS

Polisi ar gyfer Erlyn Achosion o Droseddau Casineb tuag at Bobl Anabl

© Hawlfraint y Goron 2007

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Troseddau casineb tuag at bobl anabl	7
Rôl y CPS	12
Y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron	14
Plismona troseddau casineb	17
Erlyn achosion o droseddau casineb tuag at bobl anabl	18
Beth sy'n digwydd os yw'r dioddefwr yn tynnu cefnogaeth yn ôl neu bellach ddim yn dymuno rhoi tystiolaeth?	24
Parhau ag achos lle mae'r dioddefwr wedi tynnu cefnogaeth i'r erlyniad yn ôl	26
Cefnogaeth i Ddioddefwyr a Thystion Anabl	29
Dedfrydu	37
Cofnodi troseddau casineb tuag at bobl anabl	39
Casgliad	40
Atodiad A — Sefydliadau cefnogi	41

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r datganiad polisi hwn yn egluro sut rydym ni, Gwasanaeth Erlyn y Goron (y CPS), yn ymdrin ag achosion o droseddau casineb tuag at bobl anabl.

1.2 Rydym yn cyhoeddi'r datganiad hwn oherwydd bod arnom eisiau i ddioddefwyr a thystion anabl a'u teuluoedd a'u cymunedau, yn ogystal â'r cyhoedd yn gyffredinol, fod yn hyderus bod y CPS yn deall natur ddifrifol y math hwn o drosedd. Os yw rhywun yn teimlo nad yw'n ddiogel neu nad oes croeso iddo/iddi, neu'n ei gael ei hun mewn sefyllfa o'r fath – o gael eu hosgoi neu eu gwrthod, at drais, aflonyddu a stereoteipio negyddol – gall hyn oll gael effaith negyddol sylweddol ar synnwyr diogelwch a lles y bobl anabl. Y mae hefyd yn effeithio'n fawr ar eu gallu i gymryd rhan yn eu cymunedau, yn gymdeithasol ac economaidd.

- Dangosodd Arolwg Agweddau ac Ymwybyddiaeth y Comisiwn Hawliau Anabledd (2003) bod 22% o'r bobl anabl a ymatebodd wedi profi aflonyddu mewn man cyhoeddus oherwydd eu cyflwr. Roedd achosion o aflonyddu yn fwy amlwg ymysg pobl 15-34 oed gyda 33% o'r grŵp hwn o bobl anabl wedi profi aflonyddwch (DRC, 2003).

- Dioddefodd wyth y cant o bobl anabl yn Llundain ymosodiad treisgar yn ystod 2001-02 o gymharu â phedwar y cant o bobl nad ydynt yn anabl. Yn ôl ymchwil Greater London Action on Disability (GLAD), "Mae'r ymosodiadau yn cael effaith fawr ar bobl anabl. Bu'n rhaid i tua thraean osgoi mannau penodol a newid eu trefn

arferol. Mae un o bob pedwar wedi symud cartref o ganlyniad i'r ymosodiad. Mae llawer o bobl anabl nad ydynt yn hyderus y gall yr heddlu helpu i rwystro'r digwyddiadau" (GLAD 2002).

- Dangosodd ymchwil gan Mencap bod 90% o bobl ag anabledd dysgu wedi profi bwlio[1] ac aflonyddu. Mae chwe deg chwech y cant o bobl ag anabledd dysgu wedi cael eu bwlio'n rheolaidd gyda 32% yn nodi bod bwlio'n digwydd yn ddyddiol neu'n wythnosol (Living in Fear, 2000).

1.3 Mae diogelwch pobl ac eiddo, a'r hawl i fyw bywyd yn rhydd rhag ofn ac aflonyddu yn hawliau dynol sylfaenol ac mae'r CPS yn cydnabod effaith ehangach troseddau casineb tuag at bobl anabl ar y gymuned pan fo'n taro'r holl bobl anabl trwy danseilio eu synnwyr diogelwch a sicrwydd yn y gymuned. Am y rheswm hwn, rydym yn ystyried troseddau casineb tuag at bobl anabl yn arbennig o ddifrifol. Mae troseddau o'r fath yn seiliedig ar anwybodaeth, rhagfarn, gwahaniaethu a chasineb ac nid oes lle iddynt mewn cymdeithas agored a democrataidd.

1.4 Mae'r datganiad polisi hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar y modd y mae'r CPS yn ymdrin â throseddau casineb tuag at bobl anabl yn ôl y diffiniad yn adran 146 Deddf Cyfiawnder

---

[1] Cydnabyddwn y gall y term "bwlio" gynnwys gweithredoedd troseddol. Er enghraifft, cafwyd adroddiadau gan 33% am ymosodiadau corfforol ac ymosodiadau eraill gan gynnwys: "pobl yn poeri atynt, cael taro eu pen yn erbyn wal, galw enwau arnynt, pethau'n cael eu dwyn oddi arnynt a cherrig yn cael eu taflu atynt".

Troseddol 2003. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod y gall rhai pobl anabl fod yn ddioddefwyr troseddau oherwydd yr argraff a geir eu bod yn agored i niwed neu oherwydd nad oes ganddynt fynediad cyfartal at ddiogelwch. Er enghraifft, mewn perthnasau lle gall fod grym anghyfartal rhwng y partïon megis lle bo'r diffynnydd yn ofalwr i'r dioddefwr. O'r herwydd fe fydd y datganiad polisi hwn hefyd yn cyfeirio at droseddau a gyflawnir yn erbyn pobl anabl oherwydd yr argraff eu bod yn agored i niwed, gan gydnabod y gall fod angen cefnogaeth ar y bobl hyn i'w galluogi i roi tystiolaeth er mwyn sicrhau bod ganddynt fynediad cyfartal at gyfiawnder. Byddwn yn esbonio'n ddiweddarach sut y bydd anghenion y dioddefwr anabl ac unrhyw dystion anabl yn cael eu hasesu cyn gynted â phosib er mwyn gweld pa fesurau, gan gynnwys mesurau arbennig, a all fod ar gael ac a fyddai'n addas i'w cefnogi yn y llys, fel y gallant roi'r dystiolaeth orau bosib.

1.5 Mae sicrhau ymddiriedaeth y bobl y mae troseddau casineb tuag at bobl anabl yn effeithio arnynt *a'r* rhai a dargedir oherwydd yr argraff eu bod yn agored i niwed am eu bod yn anabl, yn rhan hanfodol o'n hymagwedd tuag at ymdrin ag achosion o'r fath yn effeithiol. Rydym eisiau gwneud yn siwr bod mynediad cyfartal at gyfiawnder i'r **holl** bobl.

1.6 Yn y CPS gwnaethom ymrwymiad i fynd ati'n weithredol i hyrwyddo cydraddoldeb i bobl anabl. Rydym yn croesawu'r Ddyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl (dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005) a'r anghenraid i ddod â materion yn ymwneud ag anabledd i'r brif ffrwd yn ein polisïau a'n harferion erlyn, yn ogystal â'n polisïau a'n harferion cyflogaeth. Mae'r datganiad polisi hwn yn ffurfio rhan allweddol o'n hymateb i'r Ddyletswydd Cydraddoldeb i

Bobl Anabl a bydd ei datblygu, ei gweithredu a hyfforddiant i gefnogi'r gweithredu yn cael eu cynnwys yn ein cynllun gweithredu ar gydraddoldeb i bobl anabl. Rydym wedi ymrwymo i'w weithredu'n egnïol; byddwn yn monitro ei effaith ac yn adrodd ar y canlyniadau.

1.7 Bydd pobl anabl yn mynd i'r llys hefyd fel diffynyddion. Rydym yn ymwybodol o'n cyfrifoldeb dan y Ddyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl i sicrhau bod diffynyddion anabl yn cael eu trin yn deg o fewn cyd-destun eu hanabledd a byddem yn disgwyl i'r rhai sy'n gweithio gyda nhw roi ystyriaeth i unrhyw gefnogaeth a chymorth a allai fod yn angenrheidiol i ddiffynyddion anabl.

1.8 Mae gan bawb hawl gyfartal i gael ei ddiogelu gan gyfraith trosedd a chan yr asiantaethau cyfiawnder troseddol. Felly rhaid i'n cymdeithas a'r CPS roi blaenoriaeth i atal troseddau casineb tuag at bobl anabl a dod â'r drwgweithredwyr gerbron eu gwell. Rydym yn benderfynol o chwarae ein rhan trwy erlyn achosion yn effeithiol. Wrth wneud hynny, rydym eisiau hyrwyddo gwell hyder yn y system cyfiawnder troseddol – nod allweddol i'r holl asiantaethau sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol.

1.9 Nid y CPS yw'r unig asiantaeth sy'n ymdrin ag achosion o droseddau casineb tuag at bobl anabl. Mae gan yr heddlu, y llysoedd troseddol a barnwyr oll rannau i'w chwarae i hyrwyddo mwy o hyder ymysg pobl anabl yn y system cyfiawnder troseddol. Rydym yn gweithio gyda'r heddlu a chydweithwyr eraill yn y system cyfiawnder troseddol, yn lleol a chenedlaethol, i'n helpu i wella ein dealltwriaeth o droseddau casineb tuag at bobl anabl er mwyn sicrhau bod y broses cyfiawnder troseddol yn ei chyfanrwydd yn dod â'r rhai sy'n cyflawni troseddau casineb tuag at bobl anabl gerbron eu gwell.

1.10 Cafodd y datganiad polisi hwn ei ddatblygu a'i ddwyn ymlaen gan Grŵp Llywio gyda chynrychiolwyr o gyrff anabledd sydd â gwybodaeth broffesiynol ym meysydd anableddau, lleihau troseddu, a chefnogi tystion a dioddefwyr. Buom yn ymgynghori hefyd â phobl anabl yn ogystal â chynrychiolwyr sefydliadau pobl anabl a sefydliadau dioddefwyr. Rydym wedi gwerthfawrogi'r holl sylwadau a gasglwyd yn fawr; serch hynny, cyfrifoldeb y CPS yn unig yw cynnwys y ddogfen hon. Cefnogir y datganiad polisi hwn gan gyfarwyddyd manylach ar gyfer holl erlynwyr a gweithwyr achosion y CPS fel y byddant yn deall y polisi yn eglur a'r modd y byddwn yn ymdrin â'r math hwn o drosedd.

2. Troseddau casineb tuag at bobl anabl

2.1.1 Ym mis Ebrill 2005 daeth newid i'r gyfraith yn sgil adran 146 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (CJA). http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2003/30044—o.htm#146 Nid oedd Adran 146 yn creu unrhyw droseddau newydd; roedd yn gosod dyletswydd ar y llysoedd i gynyddu'r ddedfryd ar gyfer **unrhyw** drosedd (er enghraifft, ymosod neu ddifrod troseddol) a waethygid gan elyniaeth ar sail anabledd (neu anabledd tybiedig) y dioddefwr. Felly, pan fydd troseddwr wedi pledio'n euog neu wedi'i gael yn euog a'r llys wrthi'n penderfynu ar y ddedfryd briodol, rhaid iddo drin tystiolaeth am elyniaeth ar sail anabledd fel rhywbeth sy'n gwneud y trosedd yn fwy difrifol. Rhaid i'r llys hefyd ddatgan y ffaith yn agored fel bod pawb yn gwybod bod y trosedd yn cael ei drin yn fwy difrifol oherwydd y dystiolaeth hon o elyniaeth ar sail anabledd.

2.1.2 Cafodd Adran 146 ei chynllunio i sicrhau bod y troseddau hyn yn cael eu trin â difrifoldeb gan yr heddlu, erlynwyr a'r llysoedd a'u bod yn cael eu trin yn unol â throseddau a waethygir gan elyniaeth hiliol neu grefyddol neu elyniaeth ar sail tueddfryd rhywiol.

2.1.3 Felly, y mae bellach yn ddyletswydd ar y CPS i sicrhau, ble bynnag y bo tystiolaeth o'r fath elyniaeth, bod hyn yn cael ei ddwyn i sylw'r llys sy'n dedfrydu.

2.1.4 Yn y polisi hwn, byddwn yn cyfeirio at droseddau sy'n cael eu cwmpasu gan adran 146 CJA fel troseddau casineb tuag at bobl anabl.

2.2 Diffinio "Anabledd" a "Digwyddiad yn Ymwneud ag Anabledd"

2.2.1 Er dibenion adran 146 mae "anabledd" yn golygu unrhyw amhariad corfforol neu feddyliol.[2]

2.2.2 Mae adran 146 yn berthnasol hefyd i achosion lle bo'r troseddwr wedi tybio boed person yn anabl, boed y *dybiaeth* honno'n gywir ai peidio.

2.2.3 Ni cheir diffiniad statudol o ddigwyddiad sy'n ymwneud ag anabledd. Fodd bynnag, i'n cynorthwyo wrth gymhwyso ein polisi ar ymdrin ag achosion o droseddau casineb tuag at bobl anabl rydym wedi mabwysiadu'r diffiniad canlynol:

> "Unrhyw ddigwyddiad, y canfyddir ei fod ar sail rhagfarn tuag at y dioddefwr neu gasineb o'r dioddefwr oherwydd ei (h)anabledd neu a ganfyddir felly gan y dioddefwr neu unrhyw berson arall".

2.2.4 Yr un diffiniad a ddefnyddir gan Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) yn y llawlyfr arweiniad tactegol a ddosbarthwyd i holl wasanaethau'r heddlu ym mis Mawrth 2005, parthed Trosedd Casineb a Digwyddiadau Casineb.

2.3 Pryd y bydd adran 146 CJA yn berthnasol?

2.3.1 *Mae adran 146 CJA yn berthnasol i droseddau a gyflawnir yn unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol:*

---

[2] Nid yw'r diffiniad hwn o anabledd yr un fath â diffiniad anabledd yn ôl diffiniad Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005 sy'n cwmpasu pobl ag amrywiaeth eang o anableddau, gan gynnwys pobl sy'n byw gyda HIV neu AIDS, neu sydd â chanser neu sglerosis ymledol.

Adeg cyflawni'r trosedd neu'n union cyn gwneud neu ar ôl gwneud hynny, bod y troseddwr yn arddangos gelyniaeth tuag at y sawl a ddioddefodd y trosedd a hynny ar sail anabledd neu anabledd tybiedig yn perthyn i'r dioddefwr.

Er enghraifft, troseddwr yn ymosod ar berson anabl ac, yn union cyn taro'r dioddefwr, yn gwneud sylw difrïol a sarhaus am bobl anabl.

NEU

Bod y trosedd wedi'i gymell (yn llwyr neu'n rhannol) gan elyniaeth tuag at bersonau sy'n anabl neu ag anabledd neilltuol.

Er enghraifft, troseddwr yn ymosod ar rieni plentyn anabl lle bo tystiolaeth o elyniaeth tuag at y plentyn anabl oherwydd sylwadau blaenorol.

2.3.2 Mae'n bwysig nodi mai dau ddewis ar wahân yw'r rhain. Felly, mewn achos lle gellir profi bod y troseddwr wedi arddangos gelyniaeth (ar ffurf geiriau llafar fel arfer) yna nid oes angen profi cymhelliad gelyniaethus yn ogystal, ac yn groes. Mae hi bob amser yn anodd profi cymhelliad ac mae'n debygol y bydd mwy o achosion adran 146 yn ymwneud â gweithredoedd gelyniaethus na chymhelliad gelyniaethus.

2.3.3 Serch hynny, fe fydd adran 146 yn berthnasol hyd yn oed os cafodd y digwyddiad ei gychwyn gan ryw fater nad yw'n ymwneud ag anabledd, ar yr amod bod y troseddwr wedi mynd ymlaen i arddangos gelyniaeth ar sail anabledd.

Er enghraifft, gwrthdrawiad rhwng dau fodurwr. Mae un gyrrwr yn dod o'r car ac yn dechrau difrïo a bygwth y

gyrrwr arall. Yna mae'n dod yn ymwybodol bod y gyrrwr arall yn anabl ac mae'n cyfeirio at hyn mewn modd difrïol a sarhaus. Gall ymddygiad y gyrrwr fod yn drosedd trefn gyhoeddus gwaethygol oherwydd iddo hefyd arddangos gelyniaeth neilltuol ar sail anabledd.

2.4 Profi bod trosedd wedi'i waethygu gan elyniaeth ar sail anabledd

2.4.1 Ni fydd pob digwyddiad a ystyrir yn drosedd casineb tuag at bobl anabl gan y dioddefwr neu gan ryw berson arall yn drosedd o'r fath mewn gwirionedd yng ngolwg y gyfraith. Er mwyn i adran 146 fod yn berthnasol, rhaid i'r erlyniad brofi'n gyntaf bod y troseddwr wedi cyflawni trosedd ac yna allu profi bod y trosedd wedi'i waethygu gan elyniaeth ar sail anabledd y dioddefwr. Er mwyn ein helpu i benderfynu a yw digwyddiad y bydd yr heddlu'n cael gwybod amdano yn drosedd, ac a oes digon o dystiolaeth i erlyn yr achos, byddwn yn defnyddio'r Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron. Rydym yn esbonio'r Côd yn nes ymlaen yn adran 4 y datganiad hwn.

2.4.2 Cydnabyddwn, er mwyn profi bod trosedd yn un gwaethygol dan adran 146 CJA, ei bod yn bosib y bydd yn rhaid i'r dioddefwr neu dystion fod wedi "clywed" gelyniaeth ar lafar, ac mewn rhai achosion ei bod yn bosib na fydd dioddefwyr neu dystion anabl yn gallu clywed neu fod ganddynt anabledd dysgu sy'n arwain at anawsterau wrth gyfathrebu. Nodir rhai ymatebion i'r materion hyn yn adran 9 – "Cefnogaeth i ddioddefwyr a thystion anabl". Hefyd, byddwn yn gweithio gyda sefydliadau anabl wrth ddatblygu hyfforddiant ar gyfer ein herlynwyr fel y bydd ein herlynwyr yn ymwybodol o'r heriau y gallant eu hwynebu a rhai ffyrdd posib o'u datrys.

2.5 Troseddau casineb tuag at bobl anabl a throseddau a gyflawnir yn erbyn pobl anabl

2.5.1 Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng trosedd casineb tuag at rywun anabl a throsedd a gyflawnir yn erbyn person anabl oherwydd yr argraff ei fod ef neu hi yn agored i niwed. Mae trosedd casineb tuag at rywun anabl yn golygu unrhyw drosedd a gyflawnir yn unrhyw un o'r amgylchiadau a eglurir yn adran 146 CJA. Lle bo tystiolaeth ar gael i brofi bod trosedd yn cael ei waethygu oherwydd gelyniaeth ar sail anabledd y dioddefwr, byddwn yn gwneud ein gorau glas i sicrhau bod y dystiolaeth honno'n cael ei rhoi gerbron y llys er dibenion dedfrydu.

2.5.2 Fodd bynnag, nid yw pob trosedd a gyflawnir yn erbyn pobl anabl yn droseddau casineb tuag at bobl anabl – cyflawnir rhai troseddau am fod y troseddwr yn ystyried y person anabl yn rhywun agored i niwed ac nid oherwydd bod y troseddwr yn casáu neu ddim yn hoffi pobl anabl. Er enghraifft, dwyn waled oddi ar berson dall; os oedd y troseddwr yn manteisio ar y ffaith ei fod dan yr argraff bod y dioddefwr yn agored i niwed, yna ni fydd hyn yn drosedd casineb tuag at bobl anabl o fewn diffiniad adran 146.

2.5.3 Mewn achosion o'r fath, hyd yn oed lle nad yw'r trosedd yn dod o fewn diffiniad troseddau casineb tuag at bobl anabl dan adran 146 y CJA, bydd ein herlynwyr yn ystyried y canllawiau a gyhoeddir gan y Cyngor Canllawiau Dedfrydu[3]. Mae'r canllawiau yn egluro y bydd yn rhaid i'r llys, wrth asesu pa mor ddifrifol yw trosedd, roi ystyriaeth i lefel euogrwydd y troseddwr a'r niwed a achoswyd neu y

---

3 *Overarching Principles: Seriousness* (Cyngor Canllawiau Dedfrydu 2004)

risgiwyd ei achosi i'r dioddefwr. Ystyrir lefel yr euogrwydd yn uwch lle bo'r troseddwr yn mynd ati'n fwriadol i dargedu dioddefwr agored i niwed. Hefyd, lle bo dioddefwr yn arbennig o agored i niwed, gall hyn fod yn arwydd o raddau niwed mwy difrifol na'r hyn sy'n arferol. Mae'r canllawiau yn esbonio y bydd yn rhaid i'r llys roi ystyriaeth i lefel euogrwydd y troseddwr yn ogystal â'r niwed a achoswyd i'r dioddefwr wrth ystyried y ddedfryd briodol.

2.5.4 Er hynny, mae'n bosib y bydd achosion eraill lle na ellir profi naill ai bod y troseddwr wedi arddangos neu'n cael ei gymell gan elyniaeth neu fod y troseddwr yn gwybod bod y dioddefwr yn anabl ac wedi'i dargedu ef neu hi oherwydd hynny. Mewn achosion o'r fath, ni fydd adran 146 yn berthnasol ac ni fydd y llys sy'n dedfrydu yn gallu ystyried y ffaith fod y troseddwr dan yr argraff fod y dioddefwr yn agored i niwed fel nodwedd sy'n gwaethygu'r trosedd.

2.5.5 Credwn ei bod yn bwysig tynnu sylw at y gwahaniaethau hyn nawr rhag codi disgwyliadau pobl y bydd yr holl droseddau a gyflawnir yn erbyn pobl anabl yn cael eu herlyn fel troseddau casineb tuag at bobl anabl.

3. Rôl y CPS

3.1 Cyfrifoldeb yr heddlu yw ymchwilio i honiadau o droseddu a chasglu tystiolaeth am yr hyn a ddigwyddodd.

3.2 Yn dilyn gweithredu Cyhuddo Statudol, gwaith y CPS bellach yw penderfynu ar y cyhuddiad ym mhob achos heblaw'r rhai mwyaf arferol a bydd ein herlynwyr yn gweithio gyda'r heddlu i sicrhau y bydd troseddau casineb

tuag at bobl anabl yn cael eu hadnabod cyn gynted â phosib fel y gellir gwneud y penderfyniad cyhuddo cywir.

3.3 Mae'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru a Lloegr yn dibynnu ar fod tystion yn dod i'r llys i roi tystiolaeth am yr hyn a ddigwyddodd. Fel arfer, bydd tystion yn rhoi tystiolaeth mewn llys agored lle bydd aelodau o'r cyhoedd a'r wasg. Mae'r diffynnydd yn bresennol bron bob amser hefyd. Mae rhoi gwybod am drosedd a rhoi tystiolaeth yn ddyletswydd gyhoeddus ac mae parodrwydd y tystion i ddod ymlaen yn allweddol i unrhyw erlyniad llwyddiannus.

3.4 Gwyddom fod pobl a ddioddefodd yn sgil troseddau casineb tuag at bobl anabl weithiau yn amharod neu'n methu rhoi gwybod am y digwyddiad heb gefnogaeth. Hyd yn oed os nad oes angen cefnogaeth ychwanegol, gwyddom ei bod yn bosib na fydd pobl anabl yn rhoi gwybod i'r heddlu am ddigwyddiadau rhag ofn iddynt gael eu targedu drachefn. Mae'n bosib hefyd y digwydd hyn lle targedir pobl anabl oherwydd na allant gael mynediad cyfartal at ddiogelwch neu oherwydd yr amgylchedd lle maent yn byw, er enghraifft mewn ysbyty, cartref gofal neu yn eu cartref eu hunain. Hyd yn oed os derbyniodd yr heddlu adroddiad am ddigwyddiad, mae'n bosib y bydd pobl anabl yn gyndyn o roi tystiolaeth os bydd y sawl a achosodd y digwyddiad yn cael ei erlyn, neu y bydd arnynt angen cefnogaeth a chymorth neilltuol er mwyn gwneud hynny. Fe wnawn ni bopeth o fewn ein gallu i'w gwneud hi mor hawdd â phosib rhoi tystiolaeth yn y llys. Mae'n bwysig i ni fod troseddau yn erbyn pobl anabl yn cael eu cofnodi a'u herlyn a bod gan bobl anabl fynediad cyfartal at gyfiawnder.

4. Y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron

Mae'r ffordd y byddwn yn llunio ein penderfyniad ynghylch erlyn ai peidio yn cael ei disgrifio yn y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron. Cyhoeddir y ddogfen hon gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, sef pennaeth y CPS. Mae'r Côd yn cael ei ddiweddaru'n gyson er mwyn adlewyrchu'r arfer cyfredol. Byddwn yn arolygu'r achosion a gyfeirir atom yn unol â'r ddau brawf sy'n rhan o'r Côd.

4.1 Y prawf cyntaf – y prawf tystiolaethol

4.1.1 Yn gyntaf, rhaid i Erlynwyr y Goron fod yn fodlon bod digon o dystiolaeth i roi "gobaith realistig o euogfarn yn erbyn pob diffynnydd ar bob cyhuddiad". Mae hyn yn golygu y byddai rheithgor neu fainc o ynadon, dan gyfarwyddyd priodol yn unol â'r gyfraith, yn fwy tebygol na pheidio o gael y diffynnydd yn euog o'r cyhuddiad honedig.

4.1.2 Er mwyn sicrhau euogfarn mewn llys troseddol, rhaid i ni brofi'r achos fel bod y llys yn sicr o'r euogrwydd.

4.1.3 Felly, mae'r prawf tystiolaethol a ddefnyddiwn yn wahanol i'r prawf a ddefnyddir gan y llys cyn y gall ddyfarnu diffynnydd yn euog. Nid yw'r ffaith fod achos yn pasio'r prawf tystiolaethol a nodir yn y Côd yn golygu o'r herwydd y bydd yr achos yn arwain at ddyfarniad euog. Gall llawer o bethau ddigwydd rhwng ein penderfyniad i erlyn achos a dyfarniad y llys: efallai na fydd tystion yn dod i'r llys i roi tystiolaeth; efallai y bydd tystion yn rhoi tystiolaeth wahanol yn y llys i'r hyn a ddywedasant wrth yr heddlu; neu gall y diffynnydd roi tystiolaeth a dweud fersiwn wahanol o'r stori

gan fwrw amheuaeth ar ba mor wir yw stori'r dioddefwr. Mater i'r llys yw penderfynu a yw diffynnydd yn euog ar sail y dystiolaeth a glywir neu a ddarllenir ganddo, felly ni fydd yr holl achosion a erlynir yn arwain at ddyfarniad euog.

4.1.4 Os na fydd yr achos yn pasio'r prawf cyntaf ar sail cryfder y dystiolaeth, rhaid iddo beidio â mynd ymlaen, ni waeth pa mor bwysig neu ddifrifol ydyw. Y rheswm am hyn yw ein bod wedi dod i'r casgliad nad yw'r llys yn debygol o gael y diffynnydd yn euog o'r trosedd honedig. Mewn achosion o'r fath, mae'n anghywir rhoi'r diffynnydd drwy'r broses cyfiawnder troseddol ac mae'n anghywir codi disgwyliadau'r dioddefwyr a thystion pan nad ydym o'r farn ei bod hi'n debygol y ceir euogfarn.

4.2. Yr ail brawf – prawf budd y cyhoedd

4.2.1 Os yw'r achos yn pasio'r prawf tystiolaethol, rhaid i Erlynwyr y Goron wedyn benderfynu a oes angen erlyn er budd y cyhoedd. Fel arfer fe eir ati i erlyn "oni bai fod ffactorau budd y cyhoedd yn tueddu yn erbyn erlyn sy'n amlwg yn fwy na'r rhai sy'n tueddu o blaid".

4.2.2 Wrth ystyried prawf budd y cyhoedd, un o'r ffactorau y dylai Erlynwyr y Goron bob amser ei ystyried yw "canlyniadau'r penderfyniad i erlyn ai peidio o ran y dioddefwr; ac unrhyw safbwyntiau a fynegir gan y dioddefwr neu deulu'r dioddefwr". Rydym bob amser yn meddwl yn ofalus iawn am fuddiannau'r dioddefwr wrth benderfynu lle y mae budd y cyhoedd. Ond byddwn yn erlyn achosion ar ran y cyhoedd yn gyffredinol ac nid er budd unrhyw unigolyn neilltuol. Gall fod anawsterau wrth geisio taro ar y cydbwysedd cywir yn hyn o beth. Mae barn

a buddiannau'r dioddefwyr yn bwysig, ond ni ellir rhoi'r gair olaf iddynt ynghylch erlyniad gan y CPS. Rhaid rhoi gweithredoedd unigolyn yng nghyd-destun y gymdeithas ehangach a chydbwyso hynny â'r peryglon i unigolion eraill.

4.2.3 Ystyriwn unrhyw drosedd a ysgogir gan elyniaeth tuag at y dioddefwr oherwydd anabledd y dioddefwr neu anabledd canfyddedig yn fater mwy difrifol fel y nodir yn y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron ym mharagraff 5.9(k). O ganlyniad, o ran achosion troseddau casineb tuag at bobl anabl a gyfeirir atom, fe fydd budd y cyhoedd bron bob amser o blaid erlyn.

4.2.4 Dyma rai o'r ffactorau budd y cyhoedd y byddwn yn eu hystyried:

- difrifoldeb y trosedd;
- anafiadau'r dioddefwr – boed gorfforol neu seicolegol;
- a wnaeth y diffynnydd ddefnyddio arf;
- a yw'r diffynnydd wedi gwneud unrhyw fygythiadau cyn neu ar ôl yr ymosodiad;
- a wnaeth y diffynnydd gynllunio'r ymosodiad;
- y siawns y bydd y diffynnydd yn troseddu eto;
- y bygythiad parhaus i iechyd a diogelwch y dioddefwr neu unrhyw un arall sy'n rhan o'r mater, neu a allai ddod yn rhan ohono;
- perthynas y diffynnydd â'r dioddefwr; a
- chefndir troseddu y diffynnydd, yn enwedig unrhyw droseddau blaenorol yn erbyn pobl anabl.

4.2.5 Mewn achosion o droseddau casineb tuag at bobl anabl – fel yn yr holl achosion – rhaid i'r erlynydd sy'n arolygu gymhwyso'r Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron. Os nad oes digon o dystiolaeth i fwrw ymlaen heb dystiolaeth y dioddefwr, yna yn amodol ar brawf budd y cyhoedd, mae'n bosib y bydd hi'n dal yn bosib bwrw ymlaen â'r achos.

4.2.6 Mae'r Côd yn ddogfen gyhoeddus. Fe gewch chi gopïau o Bencadlys y CPS, Rose Court, 2 Southwark Bridge, Llundain SE1 9HS neu oswyddfeydd lleol y CPS, neu o'n gwefan http://www.cps.gov.uk/victims_witnesses/code.html

5. Plismona troseddau casineb

5.1 Mae Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) yn cynrychioli'r 44 gwasanaeth heddlu yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac ym mis Mawrth 2005 rhoddwyd llawlyfr arweiniad tactegol i'r holl wasanaethau, yn ymwneud â Throsedd Casineb a Digwyddiadau Casineb.

Diffinnir Digwyddiad Casineb fel hyn:

Unrhyw ddigwyddiad, boed drosedd neu beidio, a ganfyddir gan y dioddefwr neu unrhyw berson arall fel un a gymhellir gan ragfarn neu gasineb.

Dyma ddiffiniad Trosedd Casineb;

Unrhyw ddigwyddiad sy'n drosedd, a ganfyddir gan y dioddefwr neu unrhyw berson arall, fel un a gymhellir gan ragfarn neu gasineb.

Dyma ddiffiniad Digwyddiad yn Ymwneud ag Anabledd (weithiau cyfeirir ato fel digwyddiad anablu)

Unrhyw ddigwyddiad, y canfyddir ei fod yn seiliedig ar ragfarn neu gasineb tuag at y dioddefwr oherwydd ei anabledd neu a ganfyddir felly gan y dioddefwr neu unrhyw berson arall.

5.2 Y mae'n hanfodol bod ymchwilwyr yr heddlu yn hysbysu'r erlynwyr bod trosedd wedi cael ei gofnodi fel digwyddiad anabledd a hefyd a yw'r dioddefw(y)r neu dyst allweddol yn anabl gan y bydd hyn yn cyfrannu at y ffordd y bydd yr erlynydd yn ymdrin â'r achos.

6. Erlyn achosion o droseddau casineb tuag at bobl anabl

6.1.1 Fel y gwnaethom ni esbonio ym mharagraff 2.4.1, mae'n bosib na fydd hi bob tro'n bosib i ni brofi bod trosedd sydd yng ngolwg y dioddefwr neu ryw berson arall yn drosedd casineb tuag at bobl anabl (digwyddiad yn ymwneud ag anabledd) yn drosedd casineb tuag at bobl anabl yn wyneb y gyfraith. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod unrhyw drosedd a ystyriwyd yn drosedd casineb tuag at bobl anabl yn cael ei gofnodi felly gan yr heddlu a'r CPS gan y bydd hyn yn hysbysu'r modd y byddwn yn ymdrin â'r achos. Dylai'r heddlu roi gwybod i ni am bob digwyddiad sy'n ymwneud ag anabledd a byddwn ninnau wedyn yn monitro'r ffordd y byddwn yn ymdrin â nhw.

6.1.2 Byddwn yn mabwysiadu ymagwedd o fynd ati'n weithredol i geisio rhagor o wybodaeth gan yr heddlu i'n helpu i

benderfynu a ellir mynd ati'n briodol i erlyn achos fel trosedd casineb tuag at bobl anabl. Mewn rhai achosion, gallwn gynghori'r heddlu i ddilyn trywyddau ymholi eraill posib. Gallai hyn gynnwys edrych ar gofnod o ddigwyddiadau blaenorol ar gyfer yr un dioddefwr, neu ar gyfer yr unigolyn sydd dan amheuaeth. Gall hefyd olygu holi am wybodaeth neu dystiolaeth gan asiantaethau eraill, er enghraifft, y Gwasanaethau Cymdeithasol, y GIG, grwpiau cefnogaeth arbenigol a grwpiau cymunedol sy'n gweithio gyda phobl anabl. Er enghraifft, efallai fod awdurdod lleol neu gymdeithas dai â gorchymyn troi allan (nawr neu yn y gorffennol) yn ymwneud â'r holl bartïon yn yr achos troseddol. Ym mhob achos, dylai erlynwyr gyd-drafod yn uniongyrchol â'r swyddog sydd yng ngofal yr achos er mwyn gwneud yn siwr bod yr holl dystiolaeth sydd ar gael wedi cael ei chasglu a'i hanfon at y CPS i'w hystyried wrth arolygu'r achos. Gall hyn fod yn arbennig o bwysig os yw'r sefyllfa yn cynnwys fictimeiddio dro ar ôl tro.

6.1.3 Rydym yn ceisio llunio'r achosion cryfaf posib i'w rhoi gerbron llys. Os ydym yn fodlon bod digon o dystiolaeth i brofi bod y trosedd yn un gwaethygol yn unol ag adran 146, fe fyddwn yn egluro wrth yr amddiffyniad a'r llys ein bod yn bwriadu cyflwyno tystiolaeth i'r perwyl hwn gerbron y llys er dibenion dedfrydu.

6.1.4 Lle bo trosedd trais yn y cartref yn cael ei gyflawni yn erbyn person anabl, fe fyddwn hefyd yn cyfeirio at ein Polisi ar gyfer Erlyn Achosion o Drais yn y Cartref.

6.2 Dewis cyhuddiad

6.2.1 Dylai'r cyhuddiadau y penderfynwn eu dewis mewn unrhyw erlyniad bob amser adlewyrchu difrifoldeb yr hyn a ddigwyddodd, unrhyw elfen o ragfwriad neu barhad yn ymddygiad y diffynnydd, bwriad profadwy y diffynnydd a difrifoldeb unrhyw anaf a ddioddefodd y dioddefwr. Rhaid i'r cyhuddiadau ein cynorthwyo i gyflwyno'r achos yn eglur a syml a rhaid iddynt roi'r grym i'r llys osod dedfryd briodol.[4]

6.2.2 Mae'r CPS a'r heddlu wedi cytuno ar "safonau cyhuddo" ar gyfer rhai mathau o droseddau gan gynnwys ymosodiadau. Canllawiau yw'r rhain sy'n ein helpu i wneud penderfyniad cyson ynghylch y cyhuddiadau cywir. Byddwn yn eu defnyddio wrth arolygu pob achos. Mae enghreifftiau o safonau cyhuddo i'w gweld yn http://www.cps.gov.uk/legal/section5/chapter_c.html

6.2.3 Mewn achos sy'n cael ei erlyn fel trosedd casineb tuag at bobl anabl, ni fydd y cyhuddiad ei hun yn adlewyrchu'r ffaith fod y trosedd yn drosedd casineb tuag at bobl anabl. Y rheswm am hyn, fel yr eglurwyd ym mharagraff 2.1.1, yw nad yw adran 146 yn creu unrhyw droseddau penodol ond yn hytrach ei bod yn gosod dyletswydd ar lysoedd i gynyddu'r ddedfryd ar gyfer troseddau a waethygir gan

---

[4] Mae Addewid yr Erlynwyr: "Rhoi ystyriaeth i'r effaith ar y dioddefwr neu'r teulu wrth benderfynu cyhuddo ai peidio" a'r Côd Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau, adran 7.2 yn cyfeirio at rwymedigaeth y CPS i sicrhau yr hysbysir dioddefwyr o benderfyniadau cyhuddo a wneir gan y CPS.

elyniaeth ar sail anabledd y dioddefwr. Nid oes yn rhaid i ni brofi'r ffactor gwaethygol er mwyn i'r diffynnydd gael ei brofi'n euog o'r trosedd yn y cyhuddiad (er enghraifft, ymosodiad neu ddifrod troseddol). Fodd bynnag, y mae'n rhaid i ni brofi'r ffactor gwaethygol er mwyn sicrhau y bydd y trosedd yn cael ei drin yn fwy difrifol gan y llys dedfrydu dan adran 146 CJA. Wrth i ni erlyn achos fel trosedd casineb tuag at bobl anabl byddwn yn gwneud hynny'n eglur i'r amddiffyniad ac i'r llys, ar y cyfle cyntaf.

6.2.4 Mae rhwymedigaeth ar erlynwyr i hysbysu dioddefwyr o unrhyw benderfyniad i beidio ag erlyn.[5]

6.3 Mechnïaeth

6.3.1 Ar ôl i berson gael ei gyhuddo o gyflawni trosedd, bydd yr heddlu yn penderfynu a fyddant yn rhyddhau'r person ar fechnïaeth i fynychu'r gwrandawiad llys nesaf sydd ar gael (fel arfer o fewn dau i bum niwrnod ar ôl y cyhuddo), neu'n cadw'r person yn y ddalfa i ymddangos gerbron y llys ynadon y diwrnod hwnnw neu'r diwrnod canlynol. Unwaith y bydd y sawl a gyhuddir yn ymddangos gerbron llys, bydd yr ynadon yn penderfynu ynghylch mechnïaeth ar ôl clywed gan yr erlyniad a'r amddiffyniad. Gallwn apelio, dan amgylchiadau neilltuol, yn erbyn penderfyniad i ganiatáu mechnïaeth.

6.3.2 Gall yr amser ar ôl i droseddwr gael ei gyhuddo o gyflawni trosedd achosi pryder i'r dioddefwr a gall dioddefwr anabl

---

[5] Addewid yr Erlynwyr a'r Côd Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau (gweler 9.2.1 isod)

fod yn arbennig o agored i niwed. Cydnabyddwn y gall rhai dioddefwyr anabl yn wir fod yn dibynnu ar y sawl a gyflawnodd y trosedd yn eu herbyn er mwyn derbyn eu gofal a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddod o hyd i drefniadau cefnogi a all fod yn cael eu darparu yn y gymuned. Fodd bynnag, er mwyn diogelu dioddefwyr a thystion rhag perygl bygythiadau neu droseddau tebyg eto, gallwn ofyn i'r llys osod amodau ar y fechnïaeth neu gallwn ofyn am i'r diffynnydd gael ei gadw yn y ddalfa. Er mwyn i'r llys gytuno, mae'n rhaid i ni allu dangos bod seiliau sylweddol dros beidio â rhoi mechnïaeth neu ganiatáu mechnïaeth gydag amodau fel y nodir yn Neddf Mechnïaeth 1976.

6.3.3 Ymhlith yr amodau y gall y llys eu gosod y mae rheidrwydd i beidio â mynd at unrhyw berson a enwir neu i gadw draw o ardal benodol. Wrth wneud penderfyniadau ynghylch a ddylid gwrthwynebu mechnïaeth byddwn yn ystyried y wybodaeth a ddarparwyd i ni gan yr heddlu ynghylch ofnau dioddefwr neu dyst am aflonyddu neu droseddu pellach.

6.3.4 Byddwn yn gweithio gyda'r heddlu a'r llysoedd i wneud yn siwr bod y dioddefwr neu'r tyst yn cael gwybod beth sy'n digwydd, naill ai gan yr heddlu neu gennym ni, ac yn cael gwybod am unrhyw newid yn yr amodau mechnïaeth neu statws cystodaeth y sawl a gyhuddir. Bydd Unedau Gofal Tystion, a gynhelir gan yr heddlu a'r CPS, yn cynnig cymorth a gwybodaeth i ddioddefwyr a thystion a bydd Swyddog Gofal Tystion yn cadw mewn cysylltiad gyda'r dioddefwr neu'r tystion er mwyn iddynt gael gwybod am unrhyw newidiadau.

6.4 Datganiadau Personol gan Ddioddefwyr

6.4.1 Datganiad Personol gan Ddioddefwr yw datganiad a wneir gan rywun a ddioddefodd yn sgil trosedd, sy'n esbonio'r effaith a gafodd y trosedd arno ef neu arni hi. Yn y datganiad gall y dioddefwyr ddisgrifio sut yr effeithiodd y trosedd arnynt. Gallant siarad am eu dymuniadau neu eu hanghenion yn ystod yr achos ac unrhyw bryderon a allai fod ganddynt o ganlyniad i'r trosedd, er enghraifft, ynghylch diogelwch, dychryn neu fechnïaeth. Gallant sôn am gymorth (neu ddiffyg cymorth) ar gyfer yr erlyniad a cheisiadau am gymorth gan unrhyw rai o'r asiantaethau cefnogi. Fel hyn gall y llys ddod i well dealltwriaeth nid yn unig am y trosedd ond hefyd am gyd-destun y trosedd. Rhywbeth dewisol yw hyn, a dylid gofyn i'r dioddefwr a yw'n dymuno gwneud datganiad o'r fath ai peidio neu a oes arno ef/hi angen help i wneud datganiad gan weithiwr cefnogi neu aelod o'r teulu. Gellir gwneud y datganiad hwn unrhyw bryd ac mae'n bosib gwneud mwy nag un datganiad. Gall dioddefwr ofyn i'r heddlu neu gyfreithydd y CPS am daflen sy'n esbonio beth yw Datganiadau Personol Dioddefwyr a sut y gellir eu defnyddio.

6.4.2 Gall erlynwyr ddefnyddio'r datganiadau hyn i'w helpu i wneud penderfyniadau ynghylch achosion, er enghraifft, wrth benderfynu a ddylent ofyn i'r llys osod amodau pan fydd y diffynnydd ar fechnïaeth.

7. Beth sy'n digwydd os yw'r dioddefwr yn tynnu cefnogaeth yn ôl neu bellach ddim yn dymuno rhoi tystiolaeth?

7.1 Weithiau, bydd dioddefwr yn gofyn i'r heddlu beidio â bwrw ymlaen ymhellach gyda'r achos, neu'n gofyn am gael tynnu eu cwyn yn ôl. Nid yw hyn o anghenraid yn golygu y bydd yr achos yn cael ei atal yn awtomatig. Fel rheol gyffredinol, byddwn yn erlyn yr holl achosion lle mae digon o dystiolaeth a lle nad oes ffactorau sy'n ein rhwystro rhag gwneud hynny. Os yw'r dioddefwr wedi penderfynu tynnu ei gefnogaeth i'r erlyniad yn ôl, mae'n rhaid i ni ddarganfod pam. Gall hyn olygu oedi'r gwrandawiad llys er mwyn ymchwilio i'r ffeithiau a phenderfynu ar y trywydd gorau o hyn ymlaen.

7.2 Byddwn yn cymryd y camau canlynol:

- byddwn yn sicrhau y bydd erlynydd profiadol yn goruchwylio'r achos;
- os bydd y dioddefwr yn penderfynu tynnu ei gefnogaeth yn ôl, byddwn yn gofyn i'r heddlu gymryd datganiad ysgrifenedig gan y dioddefwr yn esbonio'r rhesymau dros dynnu'r gefnogaeth yn ôl, yn cadarnhau bod eu cwyn wreiddiol yn wir ac yn nodi a roddwyd unrhyw bwysau ar y dioddefwr i dynnu'r gefnogaeth yn ôl; a
- byddwn yn gofyn i'r heddlu roi eu barn ynghylch y dystiolaeth yn yr achos a sut y gallai'r dioddefwr ymateb yn eu barn hwy petaent yn cael eu gorfodi i fynychu'r llys.

7.3 Os yw datganiad y dioddefwr, ar ôl tynnu eu cwyn yn ôl, yn wahanol i'r datganiad blaenorol, byddwn yn disgwyl i'r heddlu ofyn i'r dioddefwr esbonio pam y bu newid.

7.4 Os bydd y dioddefwr yn cadarnhau bod eu cwyn yn wir ond yn dal eisiau tynnu eu cwyn yn ôl, byddwn yn ystyried yn gyntaf a yw hi'n bosib parhau â'r erlyniad heb dystiolaeth y dioddefwr (y prawf tystiolaethol) ac yna, os yw hynny'n bosib, a ddylem ni barhau â'r achos heb gefnogaeth y dioddefwr/yn erbyn dymuniadau'r dioddefwr (prawf budd y cyhoedd).

7.5 Os byddwn yn amau bod pwysau wedi'i roi ar y dioddefwr neu y codwyd ofn ar y dioddefwr er mwyn iddo/iddi dynnu eu cwyn yn ôl, byddwn yn gofyn i'r heddlu ymchwilio ymhellach. Mae'n bosib y bydd yr ymchwiliad yn datgelu troseddau newydd, er enghraifft, aflonyddu neu ddychryn tystion, neu fod amodau mechnïaeth wedi'u torri. Os bydd angen, byddwn yn gofyn i'r llys oedi unrhyw wrandawiad fel y gellir cynnal ymchwiliad trwyadl cyn ein bod yn penderfynu ynghylch dyfodol yr achos. Os yw'r rheswm y penderfynodd y dioddefwr dynnu eu cwyn yn ôl yn seiliedig ar ofn neu ddychryn, rhaid bod tystiolaeth o'r fath yn cael ei dwyn i sylw'r erlynydd a dylai ystyried cyhuddiadau pellach o ddychryn tystion.

7.6 Byddwn yn archwilio'r holl ddewisiadau hyn yn llawn, cyn penderfynu bwrw ymlaen ag erlyniad ai peidio. Bydd diogelwch y dioddefwr neu unrhyw berson arall a allai fod yn agored i niwed, yn un o'r prif ystyriaethau wrth i ni lunio penderfyniad.

8. Parhau ag achos lle mae'r dioddefwr wedi tynnu cefnogaeth i'r erlyniad yn ôl

8.1 Yn gyffredinol, po fwyaf difrifol yw'r trosedd (oherwydd, er enghraifft, lefel y trais a ddefnyddiwyd neu'r bygythiad gwirioneddol a pharhaus i'r dioddefwr neu eraill) y mwyaf tebygol ydym ni o erlyn er budd y cyhoedd, hyd yn oed os yw'r dioddefwr yn dweud nad yw'n dymuno i ni wneud hynny.

8.2 Mewn rhai achosion, os oes gennym ddigon o dystiolaeth arall, gallasem barhau heb ddibynnu ar dystiolaeth y dioddefwr o gwbl.

8.3 Os byddwn yn penderfynu y dylai'r achos fynd ymlaen ac y byddai angen dibynnu ar dystiolaeth y dioddefwr i brofi'r achos, mae'n rhaid i ni benderfynu:

- a allem ni wneud cais i'r llys am ddefnyddio datganiad y dioddefwr yn dystiolaeth heb i'r dioddefwr orfod rhoi tystiolaeth yn y llys;
- a allwn ni barhau â'r erlyniad trwy helpu'r dioddefwr fynychu'r llys trwy ddefnyddio mesurau arbennig; neu
- a ddylem ni orfodi'r dioddefwr i roi tystiolaeth yn bersonol yn y llys.

8.4 Mae gwybodaeth gefndir yn hanfodol i helpu erlynydd wneud y penderfyniad cywir ynghylch sut i fwrw ymlaen ag

achos lle mae'r dioddefwr wedi tynnu ei gefnogaeth i'r erlyniad yn ei ôl.

Ymhlith y ffactorau y dylid eu hystyried y mae:

- gallu'r dioddefwr i dystiolaethu;
- a oes perthynas yn parhau rhwng y dioddefwr a'r diffynnydd, er enghraifft, lle bo'r diffynnydd yn ofalwr i'r dioddefwr;
- os oes perthynas sy'n parhau, cefndir y berthynas ac unrhyw enghreifftiau o gam-drin o'r blaen;
- y siawns y bydd y diffynnydd yn troseddu eto;
- effaith bwrw ymlaen â'r achos, neu beidio, ar y dioddefwr; ac
- a wnaed unrhyw fygythiadau ers y digwyddiad.

8.5 Fe fydd yr erlynydd eisiau gwybod y rhesymau pam nad yw'r dioddefwr bellach eisiau rhoi tystiolaeth. Mewn achosion o droseddau casineb tuag at bobl anabl, efallai y bydd hyn yn codi oherwydd bod y dioddefwr yn byw yn rhywle lle maent yn teimlo wedi'u hynysu neu'n hynod o agored i niwed (ac rydym yn sylweddoli y gall teimlo wedi'i ynysu neu'n agored i niwed fod wedi achosi rhwystr neu oedi cyn i'r dioddefwr roi gwybod am y digwyddiad yn y lle cyntaf), lle gallai cefnogi'r erlyniad roi'r dioddefwr mewn sefyllfa lle gallai wynebu risg niwed pellach, megis mewn achosion trais yn y cartref neu sefyllfaoedd lle bo'r diffynnydd yn ofalwr i'r dioddefwr a lle bo'r dioddefwr yn

ofni canlyniadau eraill yn sgil cefnogi'r erlyniad. Mewn achosion o'r fath, rhaid i'r erlynydd ystyried unrhyw fesurau arbennig neu gefnogaeth arall sydd ar gael i'r dioddefwr a allai eu cynorthwyo, yn rhannol o leiaf, i oresgyn eu pryderon[6].

8.6 Mewn achosion lle mae angen galw dioddefwyr i roi tystiolaeth yn groes i'w hewyllys, ni fydd erlynwyr yn gwneud penderfyniad o'r fath hyd nes eu bod wedi ymgynghori â'r heddlu ac o bosib eraill sydd â diddordeb cyfreithlon a chan gadw diogelwch y dioddefwr yn brif ystyriaeth.

8.7 Mae'r gyfraith yn caniatáu i ni ddefnyddio datganiad y dioddefwr yn y llys heb alw'r dioddefwr i roi tystiolaeth lafar ond mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn yn unig. Mater i'r llys yw penderfynu a fydd yn caniatáu hyn ai peidio ac ni fydd yn gwneud hynny oni bai fod hynny er budd cyfiawnder. Os mai'r dioddefwr yw'r unig dyst i'r trosedd, gall fod yn anodd bodloni'r llys y gweinyddir cyfiawnder pan na all yr amddiffyniad groesholi'r unig dyst yn yr achos.

---

6 Addewid yr Erlynwyr: "Mynd i'r afael ag anghenion penodol dioddefwr a, lle bo cyfiawnhad dros hynny, ceisio sicrhau na ddatgelir pwy ydynt trwy wneud cais priodol i'r llys" ac yn y Côd Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau, mae adran 7.8 yn datgan bod yn rhaid i erlynwyr y CPS ystyried ceisiadau am fesurau arbennig ar gyfer tystion a allai fod yn agored i niwed neu i gael eu dychryn.

9. Cefnogaeth i Ddioddefwyr a Thystion Anabl

Mae'r CPS yn llwyr ymroddedig i gymryd yr holl gamau ymarferol i helpu dioddefwyr drwy'r profiad o fod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol, sef profiad anodd yn aml. Mae mentrau megis *Dim Tyst, Dim Cyfiawnder*, mesurau arbennig, cyfarfodydd rhwng y CPS a thystion agored i newid a rhai sy'n cael eu dychryn, cyfyngiadau adrodd a'r fenter Cefnogi, Paratoi a Phroffilio Tystion, oll wedi'u cynllunio i gynyddu hyder dioddefwr yn y system cyfiawnder troseddol. Gall fod cefnogaeth ar gael hefyd, o gam cynnar iawn yn y broses, gan yr heddlu, y Gwasanaethau Cymdeithasol ac asiantaethau cefnogi eraill, a gall hynny barhau gydol yr erlyniad.

9.1 Addewid yr Erlynwyr

9.1.1 Mae hwn yn Addewid 10 pwynt sy'n disgrifio lefel y gwasanaeth y gall dioddefwyr ddisgwyl ei dderbyn gan erlynwyr. Dylai Addewid yr Erlynwyr sicrhau bod sylw yn cael ei roi i anghenion penodol dioddefwyr a thystion anabl, eu bod yn derbyn cymorth yn y llys i'w hatgoffa o'u datganiad ysgrifenedig neu ar fideo a'u bod yn cael eu gwarchod rhag ymosodiadau diwarant neu amherthnasol ar eu cymeriad.

9.1.2 Fe gewch gopi o Addewid yr Erlynwyr ar ein gwefan http://www.cps.gov.uk/publications/prosecution/prosecutor_pledge.html

9.2 Y Côd Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau

9.2.1 Mae Côd y Dioddefwyr yn nodi rhwymedigaethau'r CPS tuag at ddioddefwyr. Enghraifft o un o'r rhwymedigaethau yw sefyllfa petai erlynydd yn penderfynu nad oes digon o dystiolaeth i fwrw ymlaen ag achos (yn dilyn adroddiad tystiolaethol llawn), neu petai'r erlynydd yn penderfynu newid rhyw gyhuddiad yn sylfaenol neu ollwng cyhuddiad. Mewn amgylchiadau o'r fath rhaid i'r erlynydd hysbysu'r dioddefwr. Os yw'r dioddefwr yn agored i niwed neu ddychryn rhaid i'r erlynydd roi gwybod iddynt o fewn un diwrnod gwaith ac o fewn pum niwrnod gwaith i ddioddefwyr eraill. Ar gyfer troseddau gwaethygol oherwydd anabledd, bydd yr erlynydd hefyd yn cynnig cwrdd â'r dioddefwr i esbonio'r penderfyniad. Lle bo erlynydd wedi penderfynu peidio â chyhuddo heblaw yn ystod ymgynghoriad wyneb yn wyneb ag ymchwiliwr, rhaid i'r ymchwiliwr roi gwybod hynny i'r dioddefwr.

9.2.2 Mae copïau o'r Côd Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Trosedd i'w cael gan Gangen Cyfathrebu y CPS yn Rose Court, 2 Southwark Bridge, Llundain SE1 9HS neu o'n gwefan http://www.cps.gov.uk/victims_witnesses/victims_code.pdf

9.3 Unedau Gofal Tystion

9.3.1 Menter ar y cyd rhwng yr heddlu a'r CPS yw *Dim Tyst, Dim Cyfiawnder* gyda'r nod o ymateb i anghenion unigol dioddefwyr a thystion trwy sefydlu Unedau Gofal Tystion arbennig.

9.3.2 Mae gennym Unedau Gofal Tystion ym mhob un o 42 Rhanbarth y CPS a'r rhain yn cael eu rhedeg ar y cyd gan y

CPS a'r heddlu. Mae Swyddogion Gofal Tystion yn un man cyswllt canolog ac yn rhoi cymorth wedi'i deilwra ar gyfer pob tyst unigol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu rhoi eu tystiolaeth orau. Mae'r cymorth neilltuol hwn yn seiliedig ar asesiad anghenion a ddylai arwain at nodi unrhyw gymorth arbenigol allai fod yn angenrheidiol ar gyfer tyst anabl. Er enghraifft, gallai'r cymorth hwn fod ar ffurf dehonglwyr achrededig ar gyfer tystion â nam ar eu clyw a llysoedd gyda mynediad addas ar gyfer tystion ag anabledd corfforol.

9.3.3 Bydd Swyddogion Gofal Tystion yn rheoli gofal y tyst o'r adeg y cyhuddir y diffynnydd hyd at y gwrandawiad terfynol.

9.4 Mesurau arbennig

9.4.1 Mewn rhai achosion gall y llys gytuno y gall tyst roi tystiolaeth gyda chymorth "mesurau arbennig". Dylai defnyddio mesurau arbennig gael ei archwilio'n gyntaf gan yr heddlu ac yna gyda'r erlynydd. Mae'n bosib y bydd gan y Swyddog Gofal Tystion sylwadau hefyd yn dilyn asesiad anghenion ond mater i'r llys fydd penderfynu a ddylid eu caniatáu.[7] Cafodd mesurau arbennig eu cyflwyno gan Ddeddf Cyfiawnder i'r Ifanc a Thystiolaeth Droseddol 1999 ac maent ar gael yn Llysoedd y Goron a'r llysoedd ynadon. Maent ar gael i gynorthwyo'r tystion canlynol:

- plant dan 17 oed;
- oedolion (17 a throsodd) y gellid eu hystyried yn agored i niwed oherwydd anallu, megis anhwylder corfforol neu

---

[7] Mae'r Côd Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau, adran 7.8 yn nodi bod yn rhaid i erlynwyr y CPS ystyried gwneud cais am fesurau arbennig ar gyfer tystiolaeth a allai fod yn agored i niwed neu'n cael eu dychryn.

feddyliol[8]; neu anabledd dysgu; a
- thystion lle mae'n debygol y bydd effaith ar eu tystiolaeth oherwydd eu bod yn cael eu dychryn (er enghraifft yn ofnus neu'n bryderus iawn ynghylch rhoi tystiolaeth).

9.4.2 Gall mesurau arbennig helpu pobl anabl i roi tystiolaeth yn y ffordd orau a chyda cyn lleied o bwysau â phosib.

9.4.3 Mae mesurau arbennig yn cynnwys:

- y dystiolaeth gyntaf ar fideo;
- y llys yn caniatáu defnyddio sgriniau yn ystafell y llys er mwyn rhwystro'r dioddefwr neu dystion eraill rhag gweld y diffynnydd;
- rhoi tystiolaeth draw oddi wrth ystafell y llys trwy gyfrwng cyswllt teledu byw (ond fe fydd hi'n dal yn bosib i'r diffynnydd eu gweld);
- clirio'r oriel gyhoeddus mewn achosion o droseddau rhyw neu achosion sy'n cynnwys dychryn;
- defnyddio cymhorthau cyfathrebu, er enghraifft, bwrdd yr wyddor, byrddau arwyddo a rhoi signal, neu ddolen clyw ;
- rhoi tystiolaeth trwy ganolwr;[9] ac
- yn Llys y Goron, yr adfocadau a'r barnwr yn peidio â gwisgo wig a gŵn.

---

[8] Mae hyn yn cynnwys rhywun sy'n byw gyda chyflwr arbennig a all eu hatal rhag mynd ar ôl erlyniad os byddai'r ffaith honno'n dod yn hysbys yn eang.

[9] Rhywun, fel arfer yn therapydd lleferydd cofrestredig gyda hyfforddiant arbennig, sy'n helpu tystion gyfathrebu gyda'r llys os oes ganddynt, er enghraifft, nam ar eu lleferydd.

9.4.4 Wrth benderfynu a ellir defnyddio mesurau arbennig ai peidio, mae'n rhaid i ni benderfynu "a yw hi'n debygol y bydd ansawdd y dystiolaeth a roddir gan y tyst yn is heb y mesurau arbennig dan sylw yn y cais". Byddwn yn mynd ati'n gadarnhaol i ystyried mesurau arbennig mewn achosion yn ymwneud â dioddefwyr a thystion anabl a allai fanteisio yn eu sgil. Byddwn yn gwneud cais am fesurau arbennig ond mater i'r barnwr yw penderfynu ac nid yw pob un o'r mesurau arbennig ar gael ym mhob llys. Wrth i achosion fynd rhagddynt gall amgylchiadau unigol newid felly mae'n bosib y bydd angen addasu unrhyw fesurau arbennig.

9.5 Defnyddio canolwyr ar gyfer tystion agored i niwed

9.5.1 Mae defnyddio canolwr yn un math o "fesur arbennig". Canolwr yw rhywun a gymeradwyir gan y llys i roi gwasanaeth sy'n galluogi tystion a'r llys gyfathrebu â'i gilydd. Bydd canolwyr proffesiynol – sef therapyddion lleferydd ac iaith fel arfer neu ganolwyr pobl fyddar sy'n deall diwylliant pobl fyddar – yn gweithio gyda thystion i wneud yn siwr eu bod yn cael eu deall ac yn gallu deall y cwestiynau a ofynnir iddynt. Gall canolwyr weithio gyda thystion ar ran yr erlyniad neu'r amddiffyniad a chynorthwyo wrth gymryd tystiolaeth yn y lle cyntaf a phan fyddant yn y llys, fel y gallant roi eu tystiolaeth orau yn y treial. Daw'r canolwyr o amrywiaeth o gefndiroedd gan gynnwys gwaith cymdeithasol, therapi iaith a lleferydd a seicoleg. Fel arfer byddant yn arbenigwyr drwy hyfforddiant neu o bosib gan fod ganddynt adnabyddiaeth unigryw o'r tyst.

9.6 Cefnogi, Paratoi a Phroffilio Tystion

9.6.1 Menter arloesol oedd hon gan yr Uned Cefnogi Ymchwiliadau (ISU) yng Nghyngor Dinas Lerpwl gan weithio gyda Chyfarwyddiaeth Polisi'r CPS ac fe'i mabwysiadwyd gan nifer o ranbarthau eraill.

9.6.2 Nod y fenter yw hyrwyddo mynediad cyfartal at gyfiawnder i dystion ag anableddau dysgu a thystion agored i niwed (eraill) trwy ddarparu cefnogaeth ddwys a rhaglen baratoi. (Mae'r rhaglen hon yn ymdrin â'r ddealltwriaeth, y wybodaeth a'r sgiliau sy'n angenrheidiol i'r tystion, ond yn osgoi trafod na chyfeirio at eu tystiolaeth.)

9.6.3 Ar y cam cyn y treial, asesir potensial yr unigolyn o ran bod yn dyst credadwy, cymwys yn y treial. Cynhelir y gwaith manwl hwn er mwyn i'r tyst fod yn barod ar gyfer gallu rhoi tystiolaeth a chynhyrchir proffil o'r tyst. Rhoddir y proffil gerbron y llys, yr erlyniad a'r amddiffyniad yn unol â phrotocol cytûn.

9.6.4 Bydd y proffil tyst a baratoir gan staff yr ISU yn cynnwys manylion megis sgiliau ymarferol y tyst a'i allu ef neu hi i ganolbwyntio (mewn perthynas â rhoi tystiolaeth, yn benodol). Hefyd rhoddir cyngor i adfocad yr erlyniad ynghylch sut i sicrhau bod y tyst yn gallu rhoi'r dystiolaeth orau a chynhwysir strategaethau i leihau neu ddatrys problemau posib. Fel hyn, gall adfocad yr erlyniad ystyried sut i lunio cwestiynau ar lefel y bydd y tyst yn ei deall.

9.6.5 Yn ogystal, gall y proffil tyst roi gwybodaeth i'r barnwr ynghylch anghenion penodol y tyst, a allai arwain at sefyllfa

lle bydd y barnwr yn rhoi cyfarwyddyd ynghylch unrhyw gymorth a allai fod yn angenrheidiol i'r tyst yn ystafell y llys.

9.7 Cyfarfod rhwng y CPS a dioddefwyr neu dystion agored i newid neu sy'n cael eu dychryn

9.7.1 Pan wneir cais am fesurau arbennig, gofynnir i'r tyst a fyddai ef neu hi yn hoffi cwrdd â'r erlynydd. Pwrpas y cyfarfod yw rhoi sicrwydd i'r tystion y rhoddir ystyriaeth i'w hanghenion a thrwy hynny helpu i fagu ymddiriedaeth a hyder. Nid oes raid i'r tyst fynychu'r cyfarfod hwnnw ar eu pen eu hunain. Gallant ddod â pherthynas, gofalwr neu rywun arall i'w cefnogi. Er mwyn hwyluso cyfathrebu gyda'r dioddefwr, gall fod yn briodol trefnu bod dehonglwr neu rywun tebyg yn mynychu'r cyfarfod hefyd. Lle bynnag y bo modd, bydd erlynydd y CPS yn sicrhau bod yr adfocad a fydd yn cynnal y treial yn mynychu'r cyfarfod rhwng erlynydd y CPS a'r tyst anabl. Bydd erlynydd y CPS hefyd yn cynnig i'r tyst anabl gael mynd ar ymweliad â'r llys er mwyn ymgyfarwyddo.

9.7.2 Mae rhagor o wybodaeth ynghylch cyfarfodydd â thystion agored i niwed neu dystion sy'n cael eu brawychu yn y daflen *"Tystion, Eich cyfarfod gydag Erlynydd y CPS"*.

Mae'r daflen ar gael gan Gangen Cyfathrebu y CPS, Rose Court 2 Southwark Bridge, Llundain SE1 9HS neu o'n gwefan http://www.cps.gov.uk/publications/prosecution/witnesseng.html

9.8 Cyfyngiadau adrodd (Deddf Cyfiawnder i'r Ifanc a Thystiolaeth Droseddol 1999, adran 46)

9.8.1 Mewn rhai achosion, mae'r gyfraith yn caniatáu i'r CPS wneud cais am orchymyn sy'n rhwystro'r wasg rhag cyhoeddi adroddiadau sy'n cynnwys rhai manylion ynghylch y tystion a allai arwain at eu hadnabod. Rhaid i'r llys gadw at drefn arbennig wrth ystyried cais o'r fath a rhaid iddo benderfynu a yw tyst yn gymwys ac, fel gyda'r mesurau arbennig, a yw hi'n debygol y byddai cyfyngiadau adrodd yn gwella ansawdd y dystiolaeth gan y tyst. Canolbwynt yr holl fesurau hyn yw sicrhau bod y broses o roi tystiolaeth mor hawdd â phosib i'r tyst.

9.8.2 Wrth benderfynu a yw tyst yn gymwys, rhaid i'r llys roi ystyriaeth neilltuol i:

- natur amgylchiadau honedig y trosedd y mae'r achos yn ymwneud ag ef;
- oed y tyst;
- os yw'n berthnasol, cefndir cymdeithasol a diwylliannol a tharddiad ethnig y tyst, yr amgylchiadau domestig a chyflogaeth, ac unrhyw gredoau crefyddol neu safbwyntiau gwleidyddol; ac
- unrhyw ymddygiad tuag at y tyst ar ran y diffynnydd, aelodau ei deulu ef neu hi neu gydymaith, neu unrhyw berson arall sy'n debygol o fod yn ddiffynnydd neu'n dyst yn yr achos.

9.8.3 Unwaith y bydd y ffactorau hyn wedi'u pennu, bydd y llys yn ystyried:

- a fyddai hi er budd cyfiawnder gwneud gorchymyn; a

- budd y cyhoedd o ran osgoi cyfyngiad sylweddol ac o bosib afresymol ar baratoi adroddiadau am yr achos.

9.8.4 Lle gwneir gorchymyn (mae gan yr amddiffyniad a/neu y cyfryngau hawl i wrthwynebu unrhyw gais a wnawn), effaith hyn yw na fydd hi'n bosib i unrhyw fater yn ymwneud â'r tyst gael ei gynnwys mewn unrhyw gyhoeddiad yn ystod ei oes ef neu hi os yw'n debygol o olygu y gellir ei adnabod ef neu hi fel tyst yn yr achos.

10. Dedfrydu

10.1 Mae tystiolaeth o elfen waethygol ar sail anabledd yn gwneud achos yn un mwy difrifol ac mae'n ddyletswydd ar y llys dan adran 146 CJA i roi ystyriaeth i hyn wrth ddedfrydu'r sawl a gyhuddir ac i wneud yn eglur ei fod wedi gwneud hynny. Byddwn yn gwneud yn siwr fod yr holl wybodaeth angenrheidiol gan y llys er mwyn iddo allu cyflawni'r ddyletswydd hon.

10.2 Pan fydd diffynnydd yn pledio'n euog neu'r llys yn ei gael yn euog, rhaid i'r llys benderfynu pa ddedfryd i'w rhoi a gall ddewis o blith amrediad eang o gosbau. Gall y cosbau fod ar ffurf gorchmynion ailsefydlu, cosbau cymunedol, dirwyon, cosbau "rhwymol" neu gadw yn y ddalfa.

10.3 Byddwn yn herio unrhyw liniaru gan yr amddiffyniad a fydd yn ymosod yn annheg ar gymeriad y dioddefwr[10].

10 Addewid yr Erlynwyr: "Diogelu dioddefwyr rhag ymosodiadau diwarant neu amherthnasol ar eu cymeriad a gall ofyn i'r llys ymyrryd pan ystyrir y croesholi yn amhriodol neu'n ormesol".

10.4 Os bydd y diffynnydd yn pledio'n euog neu'r llys yn ei gael yn euog o drosedd ond yn anghytuno â'r erlyniad bod elfen waethygol ar sail anabledd yn perthyn i'r trosedd, bydd yn rhaid i'r barnwr neu'r ynadon benderfynu a brofwyd y nodwedd waethygol ai peidio. Rhaid i'r erlyniad alw tystion a all roi tystiolaeth ynghylch yr elyniaeth a bydd yr amddiffyniad yn gallu eu croesholi cyn i'r llys wneud penderfyniad. Enw'r broses hon yw "gwrandawiad Newton". Ar ddiwedd y gwrandawiad rhaid i'r llys gyhoeddi a yw'n fodlon, o glywed y dystiolaeth, bod y trosedd yn un gwaethygol oherwydd gelyniaeth ar sail anabledd. Os felly, rhaid i'r llys ymdrin â'r trosedd mewn modd mwy difrifol wrth benderfynu ar ddedfryd, yn unol ag adran 146. Os na fodlonir y llys o hynny, ni fydd adran 146 yn berthnasol.

10.5 Byddwn yn rhoi gwybodaeth i'r llys i'w helpu i benderfynu a fydd yn gwneud unrhyw orchmynion y mae ganddo'r grym i'w gwneud yn ychwanegol at y brif ddedfryd[11]. Mae hyn yn cynnwys gwneud gorchmynion mewn achosion priodol am iawndal am golled, niwed neu ddifrod[12].

10.6 Ym mhob achos, mater i'r ynadon neu'r barnwr yn unig yw penderfynu ar y ddedfryd. Ar gyfer nifer gyfyngedig o droseddau (a phan ddedfrydir y diffynnydd yn Llys y Goron

---

11 Mae'r Côd Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau, adran 7.12 yn datgan bod yn rhaid i'r CPS ateb unrhyw gwestiynau sydd gan y dioddefwr am y ddedfryd os yw'r dioddefwr yn cael ei gyfeirio at y CPS gan yr Uned Gofal Tystion (mae hyn os na all yr Uned Gofal Tystion ateb cwestiynau'r dioddefwr).

12 Addewid yr Erlynwyr: "Adeg euogfarn, gwneud cais am y gorchymyn priodol am iawndal, adferiad neu ddiogelwch y dioddefwr yn y dyfodol".

yn unig) y mae gennym hawl i ofyn i'r Twrnai Cyffredinol herio dedfryd, os bydd yn cwympo y tu allan i'r amrediad y gellir yn rhesymol ei ystyried yn briodol. Mae'n bosib y bydd y dioddefwr ei hun neu deulu'r dioddefwr yn dymuno dwyn y ddedfryd i sylw'r Twrnai Cyffredinol os byddant yn ei hystyried yn rhy drugarog.

11. Cofnodi troseddau casineb tuag at bobl anabl

11.1 Mae'n hanfodol bod achosion sy'n cynnwys arddangos gelyniaeth neu sy'n cael eu cymell gan elyniaeth tuag at y dioddefwr oherwydd eu hanabledd yn cael eu hadnabod yn gywir. Byddwn yn cofnodi achosion a nodir yn ddigwyddiadau yn ymwneud ag anabledd gan yr heddlu ac yn monitro ein perfformiad er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio'r ddeddfwriaeth ac yn cymhwyso'r polisi hwn yn gyson. Byddwn yn adrodd ynghylch ein perfformiad wrth gymunedau er mwyn meithrin hyder yn y system cyfiawnder troseddol.

11.2 Mae'r Côd Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau wedi gosod dyletswyddau a rhwymedigaethau newydd ar y CPS. Trwy fonitro troseddau casineb tuag at bobl anabl a monitro canlyniadau troseddau sy'n cynnwys dioddefwyr a thystion anabl bydd yn ein helpu i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau a'n bod yn darparu gwasanaeth o ansawdd i holl ddioddefwyr troseddau.

12. Casgliad

12.1 Rydym yn benderfynol o chwarae ein rhan yn atal troseddau yn erbyn pobl anabl a dwyn troseddwyr gerbron eu gwell. Rydym wedi ymrwymo i wella ein perfformiad wrth ymdrin ag achosion o bob trosedd casineb ac rydym yn awyddus i ddioddefwyr a thystion fod â hyder yn y modd y byddwn yn arolygu a gwneud cynnydd yn ein hachosion.

12.2 Gobeithiwn y bydd y ddogfen hon yn helpu dioddefwyr troseddau casineb tuag at bobl anabl i ddeall gwaith y CPS, sut rydym yn gwneud ein penderfyniadau a'r gwahanol gamau yn y broses erlyn.

12.3 Byddwn yn parhau i weithio gyda'r heddlu a chydweithwyr eraill yn y system cyfiawnder troseddol a'r sector gwirfoddol a chymunedol yn lleol a chenedlaethol i'n helpu i ddatblygu arfer gorau.

12.4 Byddwn yn monitro'r ffordd rydym yn ymdrin ag achosion o droseddau casineb tuag at bobl anabl ac yn cyhoeddi'r wybodaeth hon.

12.5 Mae'r CPS yn bwriadu adolygu'r datganiad polisi hwn yn rheolaidd, er mwyn iddo adlewyrchu'r ddeddfwriaeth gyfredol a newidiadau cymdeithasol. Felly, rydym yn croesawu sylwadau a fydd yn ein galluogi i wneud hyn.

Atodiad A

Isod rhestrir manylion cysylltu ar gyfer rhai o'r sefydliadau sy'n cefnogi pobl anabl ac sy'n darparu gwybodaeth am anableddau

Ymddiriedolaeth Ann Craft
Mae Ymddiriedolaeth Ann Craft yn gweithio gyda staff yn y sectorau statudol, annibynnol a gwirfoddol i ddiogelu pobl ag anableddau dysgu a all fod mewn perygl o gael eu cam-drin. Mae Ymddiriedolaeth Ann Craft hefyd yn rhoi cyngor a gwybodaeth i rieni a gofalwyr a all fod yn pryderu am rywun sy'n cael cefnogaeth ganddynt.

Centre for Social Work
Prifysgol Nottingham
University Park
Nottingham
NG7 2RD
Ffôn: 0115 9515400; Ffacs: 0115 9515232
www.anncrafttrust.org

United Kingdom's Disabled People's Council (UKDPC)
Mae UKDPC yn sefydliad ambarél sy'n cynrychioli tua 80 sefydliad sy'n cael eu rhedeg a'u rheoli gan bobl anabl i hybu cydraddoldeb llawn a chyfrannu at gymdeithas.

Litchurch Plaza
Litchurch Lane
Derby DE24 8AA
Ffôn: 01332 295551; Ffacs: 01332 295580
www.bcodp.org.uk

Comisiwn Hawliau Anabledd*
Mae'r Comisiwn Hawliau Anabledd (DRC) yn gorff annibynnol a sefydlwyd ym mis Ebrill 2000 gan Ddeddf Seneddol i atal gwahaniaethu a hyrwyddo cyfle cyfartal i bobl anabl.

Llinell Gymorth y DRC yw'r man cyswllt cyntaf ar gyfer pob ymholiad.
Ffôn: 08457 622 633
Ffôn testun: 08457 622 644
Gallwch siarad â chysylltydd unrhyw bryd rhwng 8am ac 8pm, dydd Llun i ddydd Gwener
Ffacs: 08457 778 878
Post: DRC Helpline
FREEPOST MID02164
Stratford upon Avon
CV37 9BR
www.drc.org.uk

*O fis Hydref 2007, bydd gwaith y DRC yn dod yn rhan o'r comisiwn newydd, sef y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CEHR)
www.cehr.org.uk

Cymdeithas Cŵn y Deillion
Amcan Cymdeithas Cŵn y Deillion yw creu byd lle gall yr holl bobl sy'n ddall ac sy'n gweld yn rhannol fwynhau'r un hawliau, cyfleoedd a chyfrifoldebau â phawb arall.

Hillfields
Burghfield Common
Reading RG7 3YG
Ffôn: 0118 983 5555; Ffacs: 0118 983 5433
www.gdba.org.uk

Mencap
Mencap yw prif elusen anableddau dysgu y Deyrnas Unedig, yn gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

123 Golden Lane
Llundain
EC1Y 0RT
Ffôn: 020 7454 0454; Ffacs: 020 7608 3254
www.mencap.org.uk

MIND
Mae MIND yn gweithio i greu gwell bywyd i bawb â phrofiad o drallod meddyliol trwy hyrwyddo safbwyntiau, anghenion a dyheadau pobl â phroblemau afiechyd meddwl.

15-19 Broadway
Llundain E15 4BQ
Ffôn: 020 8519 2122; Ffacs: 020 8522 1725
www.mind.org.uk

Leonard Cheshire
Leonard Cheshire yw'r prif ddarparwr gwasanaethau cefnogi anabledd yn y Deyrnas Unedig, ac mae'n ymgyrchu ar hawliau pobl anabl. Mae'r gwasanaethau yn cynnwys byw â chefnogaeth, gofal yn y cartref, gofal preswyl, adferiad, canolfannau adnoddau a rhaglenni hyfforddiant a chyflogaeth.

30 Millbank
Llundain
SW1P 4QD
Ffôn: 020 7802 8200; Ffacs: 020 7802 8250
www.leonard-cheshire.org.uk

Cyngor Dinas Lerpwl – Uned Cefnogi Ymchwiliadau
Mae'r Uned Cefnogi Ymchwiliadau yn cynnig gwasanaeth Cefnogi, Paratoi a Phroffilio Tystion ar gyfer Tystion Agored i Niwed, yn enwedig rhai ag anabledd dysgu, sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol. Bwriad y gwasanaeth hwn yw hyrwyddo mynediad cyfartal at gyfiawnder trwy adnabod a lleihau rhwystrau ar gyfer tystion o'r fath a thrwy gefnogi asiantaethau cyfiawnder troseddol i gyflawni eu cyfrifoldebau. Mae'r model WSP&P a ddatblygwyd gan ISU wedi cael ei fabwysiadu mewn nifer o ranbarthau eraill.

Uned Cefnogi Ymchwiliadau
Cyngor Dinas Lerpwl
Community Safety
c/o Municipal Buildings
Dale Street
Lerpwl L2 2DH
Ffôn: 0151 233 4994 / 4987; Ffacs: 0151 233 4990
E-bost : investigations.support@liverpool.gov.uk

DIAL
Mae Dial yn sefydliad cenedlaethol o rwydwaith o tua 130 gwasanaeth lleol gyda Gwybodaeth am Anabledd a Llinell Gymorth (DIALs) sy'n cael eu rhedeg gan bobl anabl ar gyfer pobl anabl, ledled y DU. Mae DIAL yn rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl anabl ac eraill ar bob agwedd o fyw gydag anabledd.

DIAL UK
St Catherine's
Tickhill Road
Doncaster DN4 8QN
Ffôn: 01302 310 123; Ffacs: 01302 310 404
www.dialuk.org.uk

Respond
Mae Respond yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau sy'n darparu cefnogaeth emosiynol a seicolegol i ddioddefwyr a phobl sy'n cam-drin sydd ag anableddau dysgu. Mae Respond hefyd yn cynnig hyfforddiant a chymorth i weithwyr proffesiynol a gofalwyr.

3ydd Llawr
24-32 Stephenson Way
Llundain
NW1 2HD
Ffôn: 020 7383 0700; Ffacs: 020 7387 1222
Llinell Gymorth: 0808 808 0700
www.respond.org.uk

RNIB
Mae RNIB yn cynnig gwybodaeth, cefnogaeth a chyngor i bobl â phroblemau gyda'u golwg.

105 Judd Street
Llundain
WC1H 9NE
Llinell Gymorth RNIB: 0845 766 9999
www.rnib.org.uk

RNID
RNID yw'r elusen fwyaf sy'n rhoi cefnogaeth, gwasanaethau a chyngor i bobl fyddar a thrwm eu clyw ledled y DU.

19-23 Featherstone Street
Llundain
EC1Y 8SL
Ffôn: 020 7296 8000; Ffacs: 020 7296 8199
www.rnid.org.uk

Voice UK
Mae Voice UK yn rhoi cefnogaeth i bobl ag anableddau dysgu a grwpiau bregus eraill a ddioddefodd yn sgil troseddu neu gam-drin ac mae'n cynnig cefnogaeth i deuluoedd, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol.

Wyvern House
Railway Terrace
Derby
DE1 2RU
Ffôn: 01332 295775; Ffacs: 01332 295670
www.voiceuk.org.uk

Cymorth i Ddioddefwyr
Cymorth i Ddioddefwyr yw'r elusen genedlaethol ar gyfer pobl y mae trosedd yn effeithio arnynt. Mae ein gwirfoddolwyr yn darparu cefnogaeth gyfrinachol am ddim i helpu pobl ymdopi â'u profiad, boed nhw'n rhoi gwybod i'r heddlu am y trosedd ai peidio. Cymorth i Ddioddefwyr sy'n gyfrifol am gynnal y Gwasanaeth i Dystion a'r Llinell Gymorth hefyd. Mae'r Gwasanaeth i Dystion yn helpu tystion, dioddefwyr a'u teuluoedd cyn, yn ystod ac ar ôl treial. Bydd gwirfoddolwyr wedi'u hyfforddi yn darparu cefnogaeth emosiynol a gwybodaeth ymarferol ynghylch trefn y llys, ymweliad â'r llys, a man tawel lle gallwch aros cyn ac yn ystod y gwrandawiad.

Gall y Llinell Gymorth roi cymorth ymarferol a chefnogaeth emosiynol yn gyfrinachol a dienw: 0845 30 30 900.
www.victimsupport.org.uk

Gwasanaeth Erlyn y Goron

Mae'r llyfryn hwn yn ddogfen gyhoeddus. Mae i'w gael ar wefan y CPS:
www.cps.gov.uk

Cynhyrchwyd gan yr Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a'r Gyfarwyddiaeth Polisi
Chwefror 2007

Fe gewch chi ragor o gopïau gan:
Cangen Cyfathrebu y CPS
Rose Court
2 Southwark Bridge
Llundain SE1 9HS
Ffôn: 020 3357 0913
E-bost: publicity.branch@cps.gsi.gov.uk

Mae'r llyfryn hwn ar gael mewn Braille, fersiwn hawdd i'w ddarllen ac ar dâp sain. Cysylltwch â Changen Cyfathrebu y CPS am fanylion.

Argraffwyd gan Blackburns of Bolton